Cofnodion Grŵp Strategol 04/11/09 10:30y.b. Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli

Presennol: Merfyn Jones, Is-ganghellor Prifysgol Bangor (Cadeirydd)
Ian Rees, Coleg Meirion Dwyfor; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Helen Pritchard-Jones, Coleg Iâl; Jim O'Rourke, Nant Gwrtheyrn; Trefor F. Owen, CHWEA; Elliw Ellis-Davies, Cwmni Atom; Ifor Gruffydd, CCiO; Haydn Hughes, CCiO; Ellen Roberts CCiO

Ymddiheuriadau: Paul Croke, Coleg Iâl; David Jones, Coleg Glannau Dyfrdwy; Fred Cunningham, Coleg Llysfasi; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Huw Evans, Coleg Llandrillo; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Yr Athro Merfyn Jones.
Diolchodd i Mr Wyn Hobson am ei bresenoldeb ond gan nad oedd unrhyw aelod fyddai angen gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd yn bresennol gadawodd y cyfarfod.

Cafodd Papur A, Papur B, Papur C, Papur CH, Papur D a Phapur DD eu dosbarthu gyda'r agenda cyn y cyfarfod. 'Roedd Papur E, Ea ac Eb ar y bwrdd.

1. Cofnodion cyfarfod 08/07/09 (Papur A)
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir.

Materion yn Codi
- Eitem 3 Pwynt 9 – system fonitro Bwrdd yr Iaith yn parhau o dan drafodaeth, nid oes cytundeb wedi ei gyrraedd eto.
- Eitem 7 Amcanion Strategol Pwynt 12 - 14 - Y Llywodraeth yn datblygu cwricwlwm CiO cenedlaethol ar gyfer cyrsiau megis CBAC. Pwysleisiodd IG fod y Ganolfan yn gryf o blaid gwarchod amrywiaeth darpariaeth y Gogledd.

2. Cofnodion Panel Ansawdd 14/10/2009 (PAPUR B)
Derbyniwyd y cofnodion. Dygodd HH sylw'r aelodau at y materion canlynol:
- Arholiadau – 'Roedd yn amlwg o ddadansoddiad o ganlyniadau Arholiadau CBAC 2009 mai o'r sefydliadau hynny lle nad oes strategaeth baratoi ac adolygu y daeth y mwyafrif o'r ymgeiswyr na fu yn llwyddiannus neu a gafodd raddau isel. Bydd y Ganolfan yn annog cydweithio rhwng darparwyr i baratoi at arholiadau yn y dyfodol.
- Llais y Dysgwr – bellach mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar Lais y Defnyddiwr ac mae'r Ganolfan wedi bod yn gwneud ymholiadau i'r ffordd orau a mwyaf cost effeithiol o wneud hyn. Eleni bydd y gwaith yn cael ei wneud gan APADGOS fel rhan o gynllun peilot, ond bydd rhaid neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith yn y dyfodol.
- Bydd Estyn yn cynnal arolwg yng Ngwynedd a Môn yn Chwefror 2010 gan ddefnyddio elfennau o'r Fframwaith Newydd. Deellir mai ymylol fydd rhan y Ganolfan ond nid yw'r trefniadau yn hollol eglur ar hyn o bryd.
- AHA - diolchodd HH yn fawr iawn i'r darparwyr sydd wedi cydweithio drwy lenwi holiaduron a anfonwyd atynt. Cafwyd ymateb defnyddiol iawn a bydd Is-banel Ansawdd arbennig yn cael ei gynnal i edrych ar yr adroddiadau a'r cynlluniau cyn iddynt gael eu cyflwyno. Eleni bydd rhaid rhoi sylw amlwg i ADCDF, ond eto nid yw'r disgwyliadau yn hollol eglur ar hyn o bryd.

3. Cofnodion Panel Darparwyr 14/10/09 (PAPUR C)
Derbyniwyd y cofnodion a nododd IG fod y gweithdy a gynhaliwyd ar Gynllunio'r Ddarpariaeth yn Strategol wedi bod yn ddefnyddiol a bydd y canlyniadau yn cael eu trafod ym mhwynt 8 ar yr agenda.

4. Cynllun Strategol – Adborth APADGOS (PAPUR CH)
Adroddodd IG fod y Cynulliad wedi derbyn y Cynllun Strategol gan godi rhai pwyntiau:
- angen cryfhau'r prosesau lle gall dysgwr drosglwyddo o un darparwr i'r llall fel bo'r angen. Nodwyd fod y Ganolfan a'r darparwyr eisoes wedi cymryd camau i roi sylw i hyn a bod strategaeth genedlaethol ar gyfer cadw dysgwyr wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd.
- mae dilyniant o lefel 3 i 4 yn is yn y Gogledd nac yn genedlaethol, ond mewn realiti mae dysgwyr llwyddiannus lefel 3 yn aml iawn yn trosglwyddo i gyrsiau 'pwnc' cyfrwng Cymraeg yn hytrach na chyrsiau i ddysgwyr. Nid yw trosglwyddo i gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael ei gyfrif yn y data.
- APADGOS yn nodi bod angen ystyried cynaladwyedd y Ganolfan i'r dyfodol ac y dylai ystyried brigdorri mwy na 4% o bosibl yn y dyfodol. Yr egwyddor bresennol yw fod yr arian sy'n cael ei frigdorri yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth ar gyfer materion fel hyfforddiant a marchnata. Bydd angen i'r Grŵp Strategol drafod a phenderfynu manteision brig dorri mwy i greu adnoddau.

  Mae'r dyraniad ariannol presennol yn dod i ben yn 2011, ymddengys y bydd yn parhau ar yr un lefel hyd 2015 ac mae argoelion y bydd gostyngiad sylweddol wedi hynny. Nododd IG y bydd y mater hwn yn destun trafodaeth rhwng y Canolfannau ac APADGOS ym mis Ebrill 2010.

5. Ffioedd Cyrsiau (PAPUR D)
Adroddodd IG fod penderfyniad wedi ei wneud yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2009 i ohirio cyflwyno cynnydd ffioedd cyrsiau ym Medi 2009. Cytunwyd i dderbyn y cynnydd y cytunwyd arno ac a amlinellir ym MHAPUR D ar gyfer 2010/2011 ond i ohirio penderfynu ar gynnydd pellach yn 2011/2012.
Awgrymwyd fod y Ganolfan yn gwneud ymholiadau i'r posibilrwydd o gael nawdd ar gyfer ad-dalu rhai sy'n llwyddo, gorffen cyrsiau neu'n ymrestru ar gwrs dilynol.
Nodwyd fod taflenni'n hysbysebu'r cymorth ariannol sydd ar gael yn mynd allan i bobl sydd wedi dod ymlaen i ymrestru, ond bod angen targedu pobl nad ydynt yn dod ymlaen a sicrhau fod darpar fyfyrwyr yn cael gwybod am yr arian sydd ar gael.

6. Blaenoriaethau Strategol (PAPUR DD)
Cyflwynodd IG y papur gafodd ei lunio yn dilyn y gweithdai a gynhaliwyd yn y Panel Darparwyr:
- Amserlen Flynyddol – er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder i ddysgwyr derbyniwyd yr amserlen flynyddol sydd wedi ei amlinellu yn y Papur.

- Cyrsiau Dwys – derbyniwyd pob cynnig ar y Papur heblaw “ymchwilio i ddulliau o ddatblygu cwrs dwys cyfunol”. Gan fod Cwrs Cenedlaethol ar y gweill nid oes cyfiawnhad dros fuddsoddiad o’r fath am gwrs a fyddai ag oes cymharol fyr.
- Y Gweithle - derbyniwyd y cynnig.
- Y Teulu – teimlid fod cyfyngu’r ddarpariaeth i un darparwr yn risg a phenderfynwyd derbyn y cynnig gydag amod ei fod yn cael ei adolygu ymhen blwyddyn.
- Targedu Daearyddol - bu cryn drafodaeth ar y data yn y tabl a gofynnwyd am ddata pellach ynglŷn â chyfraddau oedolion yn derbyn unrhyw addysg ym mhob sir. Bu trafodaeth bellach ynglŷn â nod y Ganolfan i integreiddio dysgwyr i Gymdeithas Gymraeg ei hiaith yn y gorllewin neu i godi nifer siaradwyr Cymraeg yn y dwyrain. Penderfynwyd:
    - Cynnig 1 – cytuno fod angen codi ymwybyddiaeth a galw yn siroedd Wrecsam a Fflint. Derbyn yr egwyddor ond trafod y gwaith manwl ymhellach efo’r Darparwr.
    - Cynnig 2 – derbyn
    - Cynnig 3 – derbyn

7. Hyfforddiant – cyflwynodd HH PAPUR E (ynghlwm)

- Cymhwyster Cenedlaethol – ddim yn cael ei gynnig fel cwrs blwyddyn eleni.
- Rhaglen Hyfforddi Tiwtoriaid CiO hyd ddiwedd Tachwedd 2009 – nifer sylweddol wedi mynychu neu wedi ymrestru ar gyfer y cyrsiau a’r adborth i’r rhai sydd wedi eu cynnal eisoes yn ffafriol iawn.
- Hyfforddi darpar-diwtoriaid 2009-10 - er bod yr adborth i’r cwrs presennol wedi bod yn hynod o dda daeth yn amlwg o’r broses arsylwi fod darpar diwtoriaid gafodd eu mentora ar ddechrau eu cyfnod o addysgu wedi gwneud yn eithriadol o dda. O ganlyniad i hyn bydd strwythur yr hyfforddiant yn newid a bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar arsylwi tiwtor profiadol wrth ei waith a hyfforddiant pellach yn cael ei gynnig ar ôl cael peth profiad yn y dosbarth.

8. Hyfforddiant Cymraeg i Ddarlithwyr

Mae Canolfan Bedwyr yn cynnig cwrs sabothol ond mae rhai sy’n awyddus i fynd yn methu oherwydd eu bod yn disgyn o dan y trothwy gallu Cymraeg angenrheidiol. Ceisiwyd barn yr aelodau ar y syniad o drefnu cwrs lefel Canolradd wedi ei deilwra’n bwrpasol i ddarlithwyr yn canolbwyntio ar y sgiliau llafar sydd eu hangen i gyflwyno gwers. Dywedwyd fod Adran Addysg Cyngor Dinbych yn cynnal rhywbeth o’r fath, a phenderfynwyd holi ymhellach. ‘Roedd cefnogaeth i’r syniad mewn egwyddor. Bydd IG yn ymgynghori gydag aelodau ar opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno’r hyfforddiant hwn,

9. Gwefan y Ganolfan

Cafwyd cyflwyniad gan Elliw Ellis-Davies o Gwmni Atom.

- Dywedodd fod gwefan newydd wedi ei lansio a’i diwyg yn cyd-fynd a’r brand Cenedlaethol. Mae rhai adrannau angen eu datblygu ymhellach. Bu cynnydd yn y nifer sy’n ymweld â’r wefan a pha mor hir y maent yn aros ar y safle. Bu i Elliw a staff eraill o’r Ganolfan fynychu gweithdai yng Nghaerdydd yn edrych ar ddatblygu cyfryngau cyfathrebu cymdeithasol megis twitter, facebook ac ati. Byddant yn edrych mewn i gael rhywbeth fel hyn fel rhan o’r wefan. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â’r wefan ac yn ei gweld yn effeithiol.
- Mae yn gweithio ar ddwy ymgyrch hyrwyddo – un gyda Meggan Lloyd Prys, dysgwraig y flwyddyn 2009 a’r llall gyda Mr Will Williams, dysgwr o Gaernarfon sy’n ymdebygu i’r cymeriad teledu ‘Jim Royle’. Mae wedi gosod her iddo’i hun i ddysgu Cymraeg er mwyn ymdoddi’n well i’w gymuned ac wedi cytuno i sgwennu blog, darparu straeon i’r wasg, ymddangos mewn archfarchnadoedd ac ati. Gobeithir y bydd hyn yn codi proffil CiO ymhlith cynulleidfa newydd. Enw’r ymgyrch fydd ‘Royle Welsh’.
- Mae Siwan Hywel yn cael ei mentora a’i hyfforddi i wneud mwy o waith cysylltiadau cyhoeddus a marchnata.

10. Unrhyw Fater Arall

- Cafodd y Ganolfan archwiliad blynyddol ddechrau’r tymor. Diolchwyd i bawb am ddarparu data o ansawdd da mewn cyfnod byr o amser.
- Mae Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn yn hysbysebu swydd Rheolwr Addysg.

Cyfarfod nesaf:

24/02/10	**Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**
16/06/10	**Canolfan Iaith a Threftadaeth, Nant Gwrtheyrn. Llithfaen**

Minutes of the Strategic Group 04/11/09 10:30a.m. Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli

Present: Merfyn Jones, Vice-Chancellor, Bangor University (Chair)
Ian Rees, Coleg Meirion Dwyfor; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Helen Pritchard-Jones, Yale College; Jim O'Rourke, Nant Gwrtheyrn; Trefor F. Owen, CHWEA; Elliw Ellis-Davies, Atom PR; Ifor Gruffydd, WfAC; Haydn Hughes, WfAC; Ellen Roberts, WfAC

Apologies: Paul Croke, Yale College; David Jones, Deeside College; Fred Cunningham, Coleg Llysfasi; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Huw Evans, Coleg Llandrillo; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo.

All were welcomed to the meeting by Professor Merfyn Jones.
He thanked Mr Wyn Hobson for his attendance, but as no member who would need the service of an interpreter was present, Mr Hobson left the meeting.

Paper A, Paper B, Paper C, Paper CH, Paper D and Paper DD were distributed with the agenda prior to the meeting. Papers E, Ea and Eb were tabled.

1. Minutes of the meeting of 08/07/09 (Paper A)
The Minutes were accepted as a correct record.

Matters Arising
- Item 3 Point 9 — the Welsh Language Board's monitoring system was still under discussion; no agreement had yet been reached.
- Item 7, Strategic Objectives Points 12–14 — The Government was developing a national WfA curriculum for courses such as WJEC. IG emphasised that the Centre was strongly in favour of protecting the variety of provision in the North.

2. Minutes of the meeting of the Quality Panel, 14/10/2009 (PAPER B)
The Minutes were accepted. HH drew members' attention to the following matters:
- Examinations — It was clear from the analysis of the WJEC 2009 Examination results that most of the candidates who had been unsuccessful, or who had received low grades, had come from those institutions where there was no preparation and revision strategy. The Centre would be encouraging collaboration between providers to prepare candidates for examinations in the future.
- The Learner's Voice — By now there was much emphasis on Consumer Focus, and the Centre had been making enquires concerning the best and most cost-effective way of doing this. This year the work would be done by DCELLS as part of the pilot scheme, but it would be necessary to earmark funding for such work in the future.
- Estyn would be carrying out an inspection in Gwynedd and Anglesey in February 2010, using elements of the New Framework. It was understood that the Centre's role would be peripheral, but the arrangements were not entirely clear at present.
- Self-assessment Document — HH thanked the providers who had cooperated by filling in questionnaires sent to them. A very useful response had been received, and a special meeting of the Quality Sub-panel would be held to examine the reports and the plans before they were presented. This year, particular attention would have to be given to ESDGC, but once again the expectations were at present not entirely clear.

3. Minutes of the meeting of the Providers' Panel, 14/10/09 (PAPER C)
The Minutes were accepted, and IG noted that the workshop on Strategic Planning of the Provision had been useful, and that the outcomes would be discussed under Point 8 on the agenda.

4. Strategic Plan — DCELLS Feedback (PAPER CH)
IG reported that the Assembly had accepted the Strategic Plan, while raising certain points:
- the need to strengthen the processes whereby a learner could transfer from one provider to another as necessary. It was noted that the Centre and the providers had already taken steps to give attention to this, and that a national strategy for retaining learners was currently in the process of being drawn up.
- progression from level 3 to level 4 was lower in the North than it was nationally, but in reality successful level 3 learners were often transferred to Welsh-medium 'subject' courses rather than courses for learners. Transfers to Welsh-medium courses had not been counted in the data.
- DCELLS had noted that the future sustainability of the Centre needed to be considered, and that it should possibly consider top-slicing more than 4% in the future. The present principle was that the top-sliced funding was used across the region for matters such as training and marketing. The Strategic Group would need to discuss the advantages of greater top-slicing in order to create resources.

  The present financial allocation would end in 2011; it appeared that it would continue at the same level until 2015; and the signs were that there would be a substantial reduction after that. IG noted that this matter would be the subject of discussion between the Centres and DCELLS in April 2010.

5. Course Fees (PAPER D)
IG reported that a decision had been made at the April 2009 meeting to postpone the introduction of increased course fees in September 2009. It was agreed to accept the agreed increase outlined in PAPER D for 2010/2011, but to postpone a decision on a further increase in 2011/2012.
It was suggested that the Centre make enquiries as to the possibility of sponsorship for reimbursing candidates who were successful, completed courses or enrolled on a subsequent course.

It was noted that leaflets advertising the financial assistance available were sent out to people who had come forward to enrol, but that there was a need to target people who did not come forward, and to ensure that prospective students were informed of the funding available.

6. Strategic Priorities (PAPER DD)

IG presented the paper that had been drawn up following the workshops held at the meeting of the Providers' Panel:

- Annual Timetable — in order to ensure greater consistency and clarity for learners, the annual timetable outlined in the Paper was accepted.
- Intensive Courses — all proposals in the Paper were accepted, with the exception of "investigate methods of developing a combined intensive course". As a National Course was under construction, there was no justification for such investment in a course that would have a comparatively short life.
- The Workplace — the proposal was accepted.
- The Family — it was felt that restricting the provision to a single provider was risky, and it was decided to accept the proposal subject to the condition that it be reviewed after a year.
- Geographical Targeting — there was considerable discussion of the data in the table, and a request was made for further data regarding the proportions of adults receiving any education in each county. There was further discussion of the Centre's aim of integrating learners into Welsh-speaking society in the west, or of raising the number of Welsh-speakers in the east. Resolved:
    - Proposal 1 — to agree that there is a need to raise awareness and demand in the counties of Wrexham and Flintshire. To accept the principle but to discuss the detailed work further with the Provider.
    - Proposal 2 — to accept it
    - Proposal 3 — to accept it

7. Training — HH presented PAPER E (attached)

- National Qualification — not being offered as a one-year course this year.
- WfA Tutors' Training Programme up to November 2009 — a substantial number had attended or enrolled for the course, and the feedback concerning the courses already held was very favourable.
- Training prospective tutors, 2009–10 — even though the feedback on the present course had been remarkably good, it had become clear during the observation process that prospective tutors who had been mentored at the start of their period of teaching had done exceptionally well. As a result, the training structure would change, and more emphasis would be placed on observing an experienced tutor at work, and further training would be offered after some experience in the classroom.

8. Welsh-language Training for Lecturers

Canolfan Bedwyr was offering a sabbatical course, but some people who were keen to attend were unable to because they fell below the necessary threshold of competence in Welsh. The views of members were sought as to the idea of organising an Intermediate level course specifically aimed at lecturers, concentrating on the oral skills that were needed for presenting a course. It was stated that Denbighshire Education Department was holding something of the sort, and it was resolved to make further enquiries. The idea was supported in principle. IG would consult members concerning possible options for presenting this training.

9. The Centre's Website

Elliw Ellis-Davies of Atom made a presentation.

- She said that the new website had been launched, in a format that matched the National brand. Some sections needed further development. There had been an increase in the number of visitors to the website and the length of time they stayed on the site. Elliw and other Centre staff had attended workshops in Cardiff that looked at developing social communication media such as Twitter, Facebook etc. They would be investigating the possibilities of having something like this as part of the website. The Chair said he had visited the website and thought it effective.
- Elliw was working on two promotional campaigns — one with Meggan Lloyd Prys, Welsh Learner of the Year for 2009, and the other with Mr Will Williams, a learner from Caernarfon who was similar to the television character 'Jim Royle'. He had set himself the challenge of learning Welsh in order to become better absorbed into his community, and had agreed to write a blog, provide press stories, make appearances at supermarkets, and so on. It was hoped that this would raise the profile of WfA among a new audience. The campaign's title would be 'Royle Welsh'.
- Siwan Hywel was being mentored and trained to do more public relations and marketing work.

10. Any Other Business

- The Centre had had an annual audit at the beginning of term. Everyone was thanked for providing good-quality data within a short timescale.
- The Welsh Language and Heritage Centre at Nant Gwrtheyrn was advertising the post of Education Manager.

Next Meetings:

24/02/10	**Glyndŵr University, Wrexham**
16/06/10	**Welsh Language and Heritage Centre, Nant Gwrtheyrn, Llithfaen**